Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith




# Dulliau angladdol newydd




Fersiwn Darllen Hawdd

# Pwy ydyn ni



Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr ydyn ni.



Rydyn ni'n annibynnol. Dydyn ni ddim yn rhan o'r Llywodraeth.





Rydyn ni'n edrych ar y gyfraith ac yn cynnig newidiadau ar sut i wella'r gyfraith.

# Beth rydyn ni’n ei wneud




Rydyn ni’n edrych ar y gyfraith sy’n delio â **dulliau angladdol newydd** yng Nghymru a Lloegr.



Ffyrdd gwahanol o ddelio â chorff person sydd wedi marw ydy **dulliau angladdol newydd**. Dulliau gwahanol i **gladdu, amlosgi** neu **gladdu yn y môr**.




Ystyr **claddu** ydy claddu corff person sydd wedi marw.



Ystyr **amlosgi** ydy bod corff person marw yn cael ei losgi a’i droi’n lludw.



Ystyr **claddu yn y môr** ydy rhoi corff person marw yn y môr.

# Ein prosiect



Fe wnaethon ni gynnal **ymgynghoriad** cyhoeddus rhwng mis Mehefin a mis Medi 2025.

Ystyr **ymgynghoriad** ydy ein bod ni'n gofyn cwestiynau i bobl ac yn gwrando ar eu syniadau nhw.




Fe wnaethon ni ddarllen atebion pawb i'r **ymgynghoriad** ac fe wnaeth hyn ein helpu ni i benderfynu sut dylai'r gyfraith newid yn ein barn ni.




Erbyn hyn, rydyn ni wedi cyhoeddi Adroddiad sy'n gwneud **argymhellion** i'r Llywodraeth.

Gair arall am awgrymiadau ydy **argymhellion**.





Rydyn ni hefyd wedi rhoi fersiwn gyntaf o 2 **Fil** drafft iddyn nhw, sef 1 i Gymru ac 1 i Loegr.


Ystyr **Bil** ydy awgrym ar gyfer cyfraith newydd er mwyn i'r Senedd edrych arni a siarad amdani. Pan fydd y Senedd yn cytuno ar y Bil, byddan nhw'n gofyn i'r Brenin droi'r Bil yn gyfraith.



Bydd y Llywodraeth nawr yn edrych ar ein Hadroddiad ac yn penderfynu a ydyn nhw am ddilyn ein **hargymhellion** a newid y gyfraith.



Crynodeb hawdd ei ddeall o'r Adroddiad ydy'r llyfryn hwn. Mae ein Hadroddiad llawn a'n Biliau drafft ar gael yn [lawcom.gov.uk/project/new-funerary-methods/.](lawcom.gov.uk/project/new-funerary-methods/)




Yn y llyfryn hwn, rydyn ni'n rhoi gwybod i chi am ein **hargymhellion** ar gyfer newid y gyfraith. Dydyn ni ddim yn trafod popeth yn y llyfryn hwn. Ond rydyn ni wedi ceisio canolbwyntio ar y pethau fydd bwysicaf i chi yn ein barn ni.




Efallai y byddwch chi eisiau help i ddarllen y llyfryn hwn.




Mae rhai geiriau anodd yn y llyfryn hwn. Mae'r geiriau anodd mewn **print trwm**. Mae rhestr ar ddiwedd y llyfryn yn egluro beth ydy ystyr pob un o'r geiriau anodd yma.


# Pam mae angen i'r gyfraith newid




Pan fydd pobl yn marw yng Nghymru a Lloegr, maen nhw'n cael eu **claddu**, eu **hamlosgi** neu eu **claddu yn y môr**.




Erbyn hyn, mae ffyrdd eraill o ddelio â chyrff pobl ar ôl iddyn nhw farw, ac efallai y bydd rhagor o ffyrdd yn y dyfodol. **Dulliau angladdol newydd** ydy'r rhain.



Mae rhai **dulliau angladdol newydd** ar gael mewn gwahanol rannau o'r byd, ond dydyn nhw ddim ar gael yng Nghymru a Lloegr.





Dydy'r gyfraith sy'n delio â **dulliau angladdol newydd** ddim yn glir iawn.




Mae'n bosibl bod rhai cyfreithiau'n berthnasol, fel y cyfreithiau ar sut i **gofrestru** marwolaethau. Felly, dydyn ni ddim yn cael defnyddio **dulliau angladdol newydd** o dan rai o'r cyfreithiau yma.




Mae pobl wedi dweud wrthyn ni pa mor bwysig ydy sicrhau bod y gyfraith yn glir. Mae pobl eisiau gallu defnyddio **dulliau angladdol newydd** mewn ffordd ddiogel.





Byddai modd defnyddio ein **hargymhellion** a'n **Biliau** drafft i wneud yn siŵr bod **dulliau angladdol newydd** ar gael yma. Mae hyn yn gallu rhoi mwy o ddewis i bobl ynglŷn â beth fydd yn digwydd i'w cyrff pan fyddan nhw'n marw.

# Beth ydy dull angladdol newydd?




Proses sy'n dadelfennu corff person sydd wedi marw ydy **dull angladdol newydd**. Rhaid i **ddull angladdol newydd** fod yn wahanol i **gladdu**, **amlosgi** neu **gladdu yn y môr**.




Pwrpas **dull angladdol newydd** ydy cael gwared ar y corff.

Felly, dydy dulliau sy'n cadw'r corff, yn hytrach na dulliau sy'n dadelfennu'r corff, ddim yn cael eu hystyried yn **ddulliau angladdol newydd**.


# Cyfreithiau newydd




Mae gwahanol rannau o'r byd, maen nhw wedi creu cyfreithiau sy'n delio â **dulliau angladdol newydd** mewn gwahanol ffyrdd.





Mae rhai gwledydd wedi newid cyfreithiau sy'n delio ag **amlosgi**, felly mae'r cyfreithiau hynny'n berthnasol i **ddulliau angladdol newydd** hefyd.





Rydyn ni'n credu y byddai'n well cael set newydd o gyfreithiau sy'n delio â **dulliau angladdol newydd** yng Nghymru a Lloegr.

# Rheolau sy'n delio â dulliau angladdol newydd




Os bydd ein **Biliau** drafft yn dod yn gyfraith, byddan nhw'n gadael i'r Llywodraeth greu rheolau, o'r enw **rheoliadau**, sy'n delio â **dulliau angladdol newydd**. Byddai hyn yn debyg i'r gyfraith yn yr Alban.




Bydd y **rheoliadau** yn gallu dweud sut i ddefnyddio **dull angladdol newydd**.



Dydy ein Hadroddiad ddim yn awgrymu pa **ddulliau angladdol newydd** ddylai fod yn rhan o gyfreithiau'r Llywodraeth. Y Llywodraeth ddylai wneud y penderfyniad hwnnw.




Mewn gwahanol rannau o'r byd, mae angen trwydded ar bobl neu gwmnïau sydd am gynnig **dulliau angladdol newydd**.


Ystyr **trwydded** ydy bod gennych chi hawl i wneud rhywbeth.



Yn ein **hymgynghoriad**, fe wnaethon ni ofyn oes angen cael trwyddedau ar gyfer **dulliau angladdol newydd** yng Nghymru a Lloegr.



Does dim angen i chi gael **trwydded** i **gladdu** neu amlosgi corff.




Ar gyfer **dulliau angladdol newydd**, rydyn ni'n credu y byddai **rheoliadau** sy'n cael eu creu gan y Llywodraeth yn ddigon. Does dim angen **trwyddedau**.

# Egwyddorion



Pwyntiau pwysig i feddwl amdanyn nhw ydy **egwyddorion**.



Mae 3 **egwyddor** bwysig yn llywio'r gyfraith sy'n delio â **chladdu** ac **amlosgi**. Dyma'r egwyddorion:

1. Gofalu am yr amgylchedd - fel yr aer, y dŵr a'r tir,



2. Iechyd a diogelwch pobl,



3. Trin cyrff pobl marw mewn ffordd urddasol – gyda gofal a pharch.



Dylai fod yn rhaid i'r Llywodraeth feddwl am yr **egwyddorion** hyn wrth greu **rheoliadau** sy'n delio â **dulliau angladdol newydd**.

# Cofrestru



Ystyr **cofrestr** ydy gwybodaeth ysgrifenedig sy'n dangos beth sydd wedi digwydd i gorff person ar ôl iddo farw.



Pan fydd rhywun yn cael ei **gladdu** neu ei **amlosgi**, rhaid **cofrestru** hyn. Mae'n rhaid ysgrifennu a chadw'r wybodaeth yma.




Mae'n bwysig cadw **cofrestr** oherwydd mae'n gallu helpu pobl. Gallai'r gofrestr helpu:

- Yr heddlu os oes angen iddyn nhw wybod pwy oedd rhywun.



- Pobl sy'n ymchwilio i hanes eu teulu.





Pan fydd y Llywodraeth yn creu **rheoliadau** sy'n delio â **dull angladdol newydd**, rydyn ni'n credu bod yn rhaid i'r Llywodraeth greu **rheoliadau** eraill hefyd, ar sut, pryd a ble mae'n rhaid i rywun **gofrestru** bob tro bydd y dull newydd yn cael ei ddefnyddio.

# Gwneud yn siŵr bod dulliau angladdol newydd yn cael eu dilyn




Pan fydd rhywun yn defnyddio **dull angladdol newydd**, rhaid dilyn y **rheoliadau** a gafodd eu creu gan y Llywodraeth. Mae'n bwysig gallu gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y rheoliadau.





Dylai hyn gael ei wneud drwy **arolygiadau**.

Ystyr **arolygiad** ydy pan fydd rhywun yn archwilio i wneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y rheolau.




Pan fydd y Llywodraeth yn creu **rheoliadau** ar **ddull angladdol newydd**, dylen nhw hefyd orfod creu **rheoliadau** ar **arolygiadau**.




Os bydd rhywun wedi defnyddio **dull angladdol newydd** mewn ffordd sydd ddim yn dilyn y **rheoliadau**, dylai'r Llywodraeth fod yn gallu creu rheolau sy'n dweud y dylai hynny fod yn drosedd.



Os bydd rhywun yn cyflawni'r drosedd hon, mae'n bosibl y bydd yn cael dirwy.

# Dulliau sydd heb gael eu rheoleiddio



Os bydd rhywun yn defnyddio **dull angladdol newydd** sydd ddim yn rhan o **reoliadau'r** Llywodraeth, gallai hynny fod yn beryglus.



Gallai hefyd olygu dydy cyrff pobl ddim yn cael eu trin yn iawn a gallai hyn achosi gofid i bobl.



Os ydy **dull angladdol newydd** heb **reoliadau** gan y Llywodraeth, dylai'r Llywodraeth fod yn gallu dweud bod defnyddio'r dull hwnnw'n drosedd.




Os bydd rhywun yn cyflawni'r drosedd hon, mae'n bosibl y bydd yn cael dirwy neu'n mynd i'r carchar.

# Treialu



Mae'n bosibl y bydd **dulliau angladdol newydd** yn cael eu datblygu yn y dyfodol.



I wneud yn siŵr bod y dulliau yma'n ddiogel, efallai y bydd angen eu **treialu** nhw.

Ystyr **treialu** ydy profi rhywbeth.




Dylai'r Llywodraeth fod yn gallu creu **rheoliadau** ar **dreialu dulliau angladdol newydd**.




Dim ond os ydy'r person wedi cytuno cyn iddo farw i ddefnyddio ei gorff mewn **treial** y mae modd gwneud hyn.

# Beth fydd yn digwydd nesaf




Rydyn ni wedi rhoi ein **hargymhellion** yn ein Hadroddiad a'n **Biliau** drafft i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.




Llywodraeth y DU sy'n penderfynu am y gyfraith yn Lloegr, a Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu am y gyfraith yng Nghymru. Bydd y Senedd wedyn yn penderfynu pasio'r cyfreithiau newydd neu beidio.




Os bydd ein **Biliau** drafft yn dod yn gyfraith, bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gallu penderfynu pa **ddulliau angladdol newydd** maen nhw am eu **rheoleiddio**, a beth ddylai'r **rheoliadau** ei gynnwys.

## Ystyr y geiriau

**Amlosgi:** corff person sydd wedi marw yn cael ei losgi a'i droi'n lludw.

**Argymhellion:** gair arall am awgrymiadau.

**Arolygiad:** Gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y rheolau.

**Bil:** awgrym ar gyfer cyfraith newydd i'r Senedd edrych arni a siarad amdani. Pan fydd y Senedd yn cytuno ar y Bil, byddan nhw'n gofyn i'r Brenin droi'r Bil yn gyfraith.

**Claddu:** claddu corff person sydd wedi marw.

**Claddu yn y môr:** rhoi corff person marw yn y môr.

**Cofrestr:** gwybodaeth ysgrifenedig sy'n dangos beth sydd wedi digwydd.

**Dulliau angladdol newydd:** ffyrdd gwahanol o ddelio â chorff person sydd wedi marw, ar wahân i **gladdu**, **amlosgi** neu **gladdu yn y môr**.

**Egwyddorion:** pwyntiau pwysig i feddwl amdanyn nhw.

**Rheoliadau:** math o gyfraith sy'n cael ei chreu gan y Llywodraeth.

**Treialu:** profi rhywbeth.

**Trwydded:** hawl i wneud rhywbeth.

**Ymgynghoriad:** cyfle i chi ddweud wrthyn ni beth ydy eich barn chi drwy ateb rhai cwestiynau.

## Cydnabyddiaeth

Mae'r papur hwn yn cynnwys deunydd sy'n dod o'r Inspired Easy Read Collection ac allwch chi ddim eu defnyddio yn unman arall heb ganiatâd ysgrifenedig Inspired Services Publishing Ltd.
Cyf ISL107 26. Ebrill 2026.

www.inspiredservices.org.uk

Mae'n bodloni'r safon Ewropeaidd ar gyfer testunau hawdd eu deall. © European Easy-to-Read Logo:

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
www.easy-to-read.eu